# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

Cofnodion cyfarfod o'r Is-Bwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mercher, 16 Medi 2015 am 1.00 pm.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Bill Cowie, Win Mullen-James a Cefyn Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd (GW), Swyddog Trwyddedu (NJ), Swyddog Gorfodaeth (TWE) a Gweinyddwr Pwyllgor (KEJ)

## 1 PENODI CADEIRYDD

Penodwyd y Cynghorydd Cefyn Williams yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a chyflwynwyd pawb a oedd yn bresennol. Roedd gweithdrefnau'r gwrandawiad wedi eu dosbarthu ynghynt i bawb a darparwyd copïau o'r Datganiad Polisi Trwyddedu yn y cyfarfod.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan.

## 3 DEDDF TRWYDDEDU 2003: CAIS AM HYSBYSIAD O DDIGWYDDIAD DROS DRO - DENBIGH KEBAB AND BURGER HOUSE, 2 STRYD Y BONT, DINBYCH

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ar -

(i) Rybudd Digwyddiad Dros Dro a ddaeth i law gan Mr Kuddusi Demir mewn perthynas ag ymestyn oriau'r Drwydded Eiddo bresennol (darparu lluniaeth yn hwyr y nos) ar 19 a 20 Medi, 2015 yn Denbigh Kebab and Burger House, 2 Stryd y Bont, Dinbych;

(ii) mae gan y safle Drwydded Eiddo ar hyn o bryd er mwyn darparu lluniaeth hwyr y nos ar gyfer yr amseroedd canlynol -

| | |
|---|---|
| Dydd Llun i ddydd Iau | Rhwng 23:00 a 01:00 |
| Dydd Gwener a dydd Sadwrn | Rhwng 23:00 a 01:30 |
| Dydd Sul | Rhwng 23:00 a 00:00 |

(iii) lluniaeth hwyr y nos yn troi'n weithgaredd trwyddedadwy rhwng 23:00pm 05:00am o'r gloch heb fod angen trwydded y tu allan i'r oriau hyn;

(iv) roedd yr ymgeisydd wedi cyflwyno Rhybudd Digwyddiad Dros Dro i ymestyn yr oriau y gallai lluniaeth hwyr y nos gael ei ddarparu o 01:30am i 02:30am ar 19 a 20 Medi, 2015;

(v) roedd Heddlu Gogledd Cymru wedi cyflwyno Hysbysiad o Wrthwynebiad dan Adran 104 (2) Deddf Trwyddedu 2003 (Atodiad 1 i'r adroddiad) ar y sail y byddai caniatáu i'r eiddo gael ei ddefnyddio yn unol â'r Rhybudd Digwyddiad Dros Dro yn tanseilio'r amcanion trwyddedu, yn benodol (1) Atal Trosedd ac Anhrefn; (2) Diogelwch y Cyhoedd a (3) Atal Niwsans Cyhoeddus – roedd yr Heddlu o'r farn nad oedd gan y safle ddigon o fesurau rheoli ar waith i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu a'u bod yn gwybod eu bod wedi torri eu horiau trwyddedig;

(vi) mae angen ystyried Canllaw a Pholisi Datganiad Trwyddedu'r Cyngor wrth ystyried cyflwyniadau, ac

(vii) yr opsiynau sydd ar gael i'r pwyllgor wrth ystyried y Rhybudd.

Cafwyd crynodeb o'r adroddiad gan y Swyddog Trwyddedu ac amlinellodd ffeithiau'r achos.

**SYLWADAU DEFNYDDIWR YR ADEILAD**

Roedd Mr. Kuddusi Demir yn bresennol ynghyd â'i fab Mr. Osman Demir a fu hefyd yn cyfieithu ar ei ran. Anerchodd Mr. Demir yr Is-bwyllgor i gefnogi'r Rhybudd Digwyddiad Dros Dro a chadarnhaodd ei fod eisiau ymestyn yr oriau fel y nodwyd yn y Rhybudd.

**SYLWADAU HEDDLU GOGLEDD CYMRU**

Roedd Mr Aaron Haggis, Swyddog Trwyddedu yr Heddlu yn cynrychioli Heddlu Gogledd Cymru. Cyfeiriodd at wrthwynebiad ysgrifenedig yr Heddlu a oedd wedi ei seilio i raddau helaeth ar ddigwyddiadau 31 Awst 2015 pan fynychodd y Rhingyll Heddlu lleol y safle. Roedd Rhingyll yr Heddlu yn dyst i ymddygiad gwrth-gymdeithasol gan dyrfa fawr o bobl oedd wedi ymgynnull yn yr adeilad lle roeddynt yn parhau i weini bwyd i'r cwsmeriaid ar ôl yr oriau a ganiateir. Y ddadl oedd, petai'r eiddo wedi cau am 1.30am, yn unol â'r oriau a ganiateir, ni fyddai pobl wedi bod yn ymgynnull yn yr ardal. Cafwyd crynodeb o'r ymddygiad gwrthgymdeithasol a manylodd Mr. Haggis am bryderon yr Heddlu ynghylch diffyg mesurau rheoli i ddelio â chwsmeriaid sy'n cyrraedd a gadael yr adeilad a'r prosesau annigonol sydd yn eu lle i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Codwyd amheuaeth ynghylch agwedd Mr Demir pan ddaeth yr Heddlu ato yn ystod y digwyddiad. Yn dilyn y digwyddiad roedd yr Heddlu wedi gofyn i Adran Drwyddedu'r Cyngor ymchwilio i'r ffaith eu bod wedi torri'r rheolau a ganiateir a chanfod a oedd modd rhoi rheolau ychwanegol ar waith. I gloi, soniodd Mr. Haggis am ymrwymiad yr Heddlu i gefnogi pob eiddo trwyddedig i wneud y mwyaf o gynhyrchu busnes pan fydd Rhybudd Digwyddiadau Dros Dro yn cael eu cyhoeddi. Serch hynny, yn yr achos hwn, teimlai'r Heddlu y byddai Digwyddiad Dros dro yn achosi anrhefn ar raddfa fawr mewn eiddo trwyddedig.

Cafodd Mr. Demir gyfle i ymateb i'r materion a godwyd gan yr Heddlu a thrwy ei gyfieithydd cadarnhaodd ei fod yn derbyn fersiwn yr Heddlu o’r digwyddiadau. Fodd bynnag, i liniaru eglurodd ei fod wedi dychwelyd o dramor y diwrnod cyn y digwyddiad, ac felly nid oedd wedi gallu cyflwyno Rhybudd Digwyddiad Dros Dro i ymestyn yr oriau trwyddedu ar 31 Awst 2015 unol â'r hyn yr arferai ei wneud. Fe eglurodd mai ei fwriad oedd cau am 1.30am ond roedd grŵp mawr wedi dod mewn i'r eiddo. Penderfynodd aros ar agor oherwydd ei fod yn awyddus i osgoi unrhyw ymladd neu wrthdaro, ac roedd yn credu y byddai cau bryd hynny wedi achosi mwy o broblemau. Mewn ymateb i bryderon a fynegwyd ynghylch sbwriel, eglurodd Mr. Demir bod staff wedi mynd allan a chlirio unrhyw sbwriel ar ôl amser cau. Ei ddadl hefyd oedd, os yw’r eiddo ar agor neu beidio, byddai pobl yn ymgynnull y tu allan, ac nid ei gyfrifoldeb o oedd delio â nhw.

Ymatebodd yr Ymgeisydd i gwestiynau’r aelodau fel a ganlyn -

- roedd ei gais i 6mestyn ei oriau agor dros dro yn cyd-daro â Gŵyl Gwrw Dinbych ar 19 Medi
- roedd wedi rhedeg busnes am dri deg dau o flynyddoedd ac felly roedd yn gwybod sut i ddelio â chwsmeriaid meddw a sut i weithredu i dawelu sefyllfa
- roedd wedi bod yn rhedeg ei fusnes yn Ninbych ers mis Chwefror 1995
- roedd wedi delio rhywfaint â’r Heddlu yn y gorffennol, ond dim byd penodol am dros ddeng mlynedd
- esboniodd yr hyn oedd yn ei feddwl tra’n ymateb i’r Heddlu ar y noson dan sylw – dywedodd mai penderfyniad yr Heddlu oedd riportio’r mater neu beidio, a’i fod y tu hwnt i’w reolaeth.

Mewn ymateb i gwestiynau, gan gynnwys disgwyliadau'r Heddlu, dywedodd Mr. Haggis -

- bod yr Heddlu ddim yn mynychu’r eiddo yn rheolaidd
- er eu bod yn deall y goblygiadau o ran cost, byddai defnyddio goruchwylwyr drws yn cynorthwyo wrth i gwsmeriaid gyrraedd a gadael
- dylai Mr. Demir fod yn ymwybodol o nifer y bobl oedd yn mynychu’r eiddo tuag at amser cau a dylai allu rheoli’r sefyllfa
- os oes anhawster, ac er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â’r oriau a ganiateir, dylid ffonio’r Heddlu yn gofyn am gymorth er mwyn gwasgaru cwsmeriaid
- roedd y safle wedi parhau i weithredu am gryn dipyn o amser cyn cau, oddeutu 50 munud.
- pan roeddynt wedi cael cyfarwyddyd i wneud, roedd yr eiddo wedi cau yn syth heb unrhyw ddigwyddiad
- cyfrifoldeb Mr. Demir yw rheoli archebion bwyd a chwsmeriaid er mwyn gallu cau’r eiddo ar amser yn unol â’r oriau agor a ganiateir.

**SYLWADAU TERFYNOL DEFNYDDIWR Y SAFLE**

Wrth wneud datganiad terfynol dywedodd Mr. Demir ei fod wedi cau’r eiddo cyn gynted ag yr oedd wedi cael cyfarwyddyd i wneud hynny gan Sarsiant yr Heddlu a chyda’i gymorth. Drwy barhau i weini ar ôl oriau, dywedodd eto ei fod yn credu ei

fod yn tawelu sefyllfa a allai fod yn un beryglus ond roedd modd cau’r siop heb unrhyw ddigwyddiad gyda chymorth yr Heddlu.

**GOHIRIAD I YSTYRIED Y CAIS**

Ar y pwynt hwn (1.30pm) gohiriwyd yr Is-bwyllgor Trwyddedu i ystyried y cais.

**Y PENDERFYNIAD A'R RHESYMAU DROS WNEUD Y PENDERFYNIAD**

***PENDERFYNWYD*** *cyhoeddi Gwrth-hysbysiad i Mr. Kuddusi Demir i wahardd y digwyddiad, fel y nodir yn Rhybudd Digwyddiad Dros Dro, rhag cael ei gynnal.*

Rhoddodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd wybod i bawb oedd yn bresennol beth oedd penderfyniad yr Is-bwyllgor a’r rhesymau dros y penderfyniad -

Ystyriodd yr Is-bwyllgor Trwyddedu yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd ger eu bron gan yr Heddlu’n ofalus, ynghyd â sylwadau Mr Demir a'i eglurhad o'r digwyddiadau. Daeth aelodau i’r casgliad bod digon o wybodaeth yn Rhybudd Gwrthwynebiad yr Heddlu y byddai caniatáu i'r digwyddiad gael ei gynnal yn tanseilio amcanion trwyddedig Atal Trosedd ac Anhrefn, Diogelwch y Cyhoedd ac Atal Niwsans Cyhoeddus.

Roedd yr Is-bwyllgor yn bryderus bod  Mr.Demir wedi cymryd 50 munud dros yr amser a ganiateir i gau yn yr achos y cyfeiriodd yr heddlu ato, ac er bod Mr. Demir wedi dweud y byddai wedi gwneud cais am Rybudd Digwyddiad Dros dro petai wedi bod nôl yn y wlad mewn pryd, ni wnaeth, a chan fod ganddo gymaint o brofiad yn rhedeg busnes, dylai fod wedi gallu cau ar amser neu o fewn cyfnod byrrach o amser.

Ar ran yr Is-bwyllgor Trwyddedu diolchodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd i Mr. Demir a'i fab am ymddangos ger eu bron ac ateb cwestiynau yn agored ac yn onest.  Dywedodd hefyd nad oedd y penderfyniad yn atal Mr. Demir rhag gwneud cais am Rybudd Digwyddiad Dros Dro yn y dyfodol.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.45pm.